Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Gwaith achos a gyflwynwyd

7 Gorffennaf 2020

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 26 Mehefin, pan wnaethoch ofyn:

> *A fyddech cystal â dweud wrthyf faint o hawliadau/cyflwyniadau gwaith achos newydd a agorwyd (nad oes angen eu cwblhau) ar ran y cyhoedd ar gyfer pob un o'r Aelodau a ganlyn o'r Senedd, ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mai 2019 a mis Mai 2020.*

- *Andrew R T Davies*
- *David Melding*
- *Neil McEvoy*
- *Gareth Bennett*
- *Mark Reckless*
- *David Rowlands*
- *Steffan Lewis*
- *Caroline Jones*
- *Bethan Sayed*
- *Suzy Davies*

Gallaf gadarnhau nad ydym yn cadw'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani gan nad yw Comisiwn y Senedd yn darparu system gwaith achos i Aelodau o'r Senedd.

Mae croeso i chi ofyn am y wybodaeth gan yr Aelodau o'r Senedd a restrir uchod drwy'r manylion cyswllt a restrir yn eu **bywgraffiadau**. Cofiwch nad yw Aelodau o'r Senedd yn cael eu cwmpasu gan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac felly nid oes rheidrwydd arnynt i ddatgelu unrhyw wybodaeth i chi.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF